------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Tachwedd 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 309 (v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i wella diogelwch cymunedol yn sgil ymosodiad angheuol gan gi yn Sir Fynwy?

**I ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am y llifogydd eang yn Sir Gaerfyrddin neithiwr, ac amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cymorth a mesurau ataliol yn y dyfodol i gymunedau yr effeithir arnynt?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog - Newidiadau sy’n deillio o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025

(5 munud)

**NDM9033** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau sy’n deillio o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref.
2. Yn cymeradwyo’r cynnig i ddiwygio’r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.
3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026.

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog - Rheol Sefydlog 17: pleidleisio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan a chyfrifoldeb am fynediad i gyfarfodydd

(5 munud)

**NDM9032** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio’r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17: pleidleisio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan a chyfrifoldeb am fynediad i gyfarfodydd’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2025.
2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 17, fel y nodir yn Atodiad 2 i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NNDM9037** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Sam Rowlands (Ceidwadwyr Cymreig) yn lle Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau.

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil i wahardd defnyddio plastig untro ar ffrwythau a llysiau

(30 munud)

**NDM8985** Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i wahardd defnyddio plastig untro ar gynnyrch ffres ar gyfer ffrwythau a llysiau sydd wedi cael eu profi i fod o ddim budd neu fod y budd yn ddibwys, o ran ymestyn oes silff pan fyddant wedi'u pecynnu mewn plastig.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) lleihau faint o blastig untro diangen sydd ar draws cadwyni cyflenwi Cymru, gan ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl;

b) lleihau gwastraff bwyd a lleihau'r baich ar gyllid cartrefi drwy ganiatáu i ddefnyddwyr brynu dim ond yr hyn sydd ei angen arnynt yn seiliedig ar bwysau.

3. Yn nodi y byddai'r Bil yn berthnasol dim ond wrth brynu ffrwythau a llysiau mewn symiau is na 1.5kg.

## 8 Dadl ar yr adroddiad traws-bwyllgor ar yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

(60 munud)

**NDM9034** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad traws-bwyllgor y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: 'Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Medi 2025.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2025.

## 9 Dadl Plaid Cymru – gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru

(60 munud)

**NDM9031** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r rhaglen i sefydlu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru, a gychwynnwyd gan Blaid Cymru fel rhan o'r cytundeb cydweithio.

2. Yn gresynu bod cynnydd ar y rhaglen waith hon wedi bod yn araf o dan arweinyddiaeth Llywodraeth Lafur Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu'r cynnydd o ran diwygio'r system gofal cymdeithasol drwy wneud y canlynol:

a) penodi cyfarwyddwr ar gyfer Cymru gyfan gyda goruchwyliaeth strategol o drefniadau gofal y tu allan i'r ysbyty;

b) datblygu cyllidebau cyfunol ar gyfer trefniadau gofal y tu allan i'r ysbyty;

c) gosod byrddau partneriaeth rhanbarthol ar sail statudol gyda chylch gwaith clir i feithrin mwy o gydweithredu rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol;

d) sicrhau bod pob gofalwr di-dâl yn cael asesiad o anghenion o fewn cyfnod o 28 diwrnod; ac

e) ymgorffori o fewn cyfraith Cymru isafswm blynyddol cyfreithiol o ddiwrnodau seibiant ar gyfer gofalwyr di-dâl.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn gresynu:

a) bod y Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru i sefydlu gwasanaeth gofal cenedlaethol wedi methu â chyflawni newid ystyrlon yn y sector gofal cymdeithasol;

b) bod baich treth cynyddol Llywodraeth Lafur y DU a roddir ar gyflogwyr, drwy godiadau yswiriant gwladol, yn bygwth hyfywedd llawer o ddarparwyr gofal;
c) bod Llywodraeth Cymru wedi methu cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu digonol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys mynediad digonol at hyfforddiant, a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru;
d) bod bwlch brawychus ac annerbyniol rhwng polisi ac ymarfer ar asesiadau ar gyfer gofalwyr a darparu cymorth; ac
e) bod problemau parhaus o ran mynediad at becynnau gofal sy'n arwain at oedi wrth ryddhau o'r ysbyty.
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
a) cyflwyno hawl statudol i seibiant, gydag isafswm o 14 diwrnod y flwyddyn ar gyfer gofalwyr di-dâl; a
b) datblygu a chyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol ystyrlon, yn y parth cyhoeddus, i gefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys mynediad at asesiadau, darparu cymorth amserol, mynediad at seibiant, a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol.
**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**
**Gwelliant 2** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]
Dileu popeth a rhoi yn ei le:
Cynnig bod y Senedd:
1. Yn nodi'r rhaglen i sefydlu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru, sef ymrwymiad ar y cyd yn y cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.
2. Yn cydnabod y cynnydd a wnaed ar raglen waith Cam 1 mewn partneriaeth, gan gynnwys:
a) sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol gref, gan weithio ochr yn ochr â swydd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru.
b) sefydlu'r egwyddorion a'r safonau cenedlaethol i lywio'r gwaith o drawsnewid i gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth mewn modd sy'n canolbwyntio ar y person;

c) deddfu ar ddileu elw o ofal plant ac estyn yr opsiwn o daliadau uniongyrchol i bobl sy'n cael gofal iechyd parhaus; a
d) sefydlu Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a'i gwaith i ddatblygu fframwaith tâl a dilyniant.
3. Yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:
a) cydgynhyrchu glasbrint ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru;
b) cryfhau llywodraethiant cenedlaethol a rhanbarthol i arwain a chefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol fwy cydgysylltiedig yng Nghymru;
c) buddsoddi £278m y flwyddyn drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i feithrin capasiti ar gyfer gofal cymunedol integredig yn ogystal â buddsoddi £30m mewn llwybrau gofal, o ganlyniad i'r cytundeb cyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru;
d) cryfhau deddfwriaeth a chanllawiau mewn perthynas ag integreiddio a gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys cydgomisiynu a chyfuno adnoddau;
e) sbarduno'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys y cynllun seibiannau byr i helpu gofalwyr gyda'u gweithgareddau hanfodol;
f) sefydlu Fforwm y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a pharhau i ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'n gweithlu gwerthfawr; a
g) cynnal y gyfundrefn fwyaf hael o ran codi tâl yn y DU gyda therfyn cyfalaf o £50,000 ar gyfer gofal preswyl a chap wythnosol o £100 ar gyfer gofal cartref.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(0 munud)

Ni chyflwynwyd pwnc

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30,
Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2025

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 29/10/2025 i'w hateb ar 05/11/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

1 OQ63335 **(w)**

Pa waith sydd wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau yn parhau yn addas i bwrpas?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

2 OQ63345 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector lletygarwch annibynnol yn Nelyn?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ63330 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant gemau cyfrifiadurol?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

4 OQ63339 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i dyfu'r economi yng ngogledd Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

5 OQ63328 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar rôl Sir Fynwy yng nghynlluniau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OQ63343 **(w)**

Pa drafodaethau y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cynnal gyda’r Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch argymhellion Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gynllunio gwlad a thref a gyhoeddwyd yn Chwefror 2025?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

7 OQ63352 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r heriau sy'n wynebu'r sector twristiaeth ym Mhowys?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

8 OQ63351 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynllun datblygu economaidd ar gyfer Blaenau'r Cymoedd?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

9 OQ63337 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yng Ngogledd Cymru i uwchsgilio eu gweithlu ar gyfer y dyfodol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

10 OQ63348 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad economaidd yng Nghasnewydd a rhanbarth de-ddwyrain Cymru??

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

11 OQ63331 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad at ddiwylliant ym Mhontypridd?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ63338 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r system gynllunio i annog mwy i fabwysiadu technolegau gwyrdd?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

1 OQ63353 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar amseroedd aros ar gyfer ambiwlans ar draws Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

2 OQ63342 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am y cynllun i sefydlu canolfan iechyd newydd yn Waunfawr yn Arfon?

3 **Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ63327 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella proses gwyno y GIG i breswylwyr yn Nwyrain De Cymru?

4 **Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ63354 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i ehangu fferyllfeydd ar y safle mewn ysbytai?

5 **Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ63323 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella gwasanaethau iechyd yng Ngorllewin Cymru?

6 **Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ63322 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad at ofal iechyd sylfaenol?

7 **Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ63341 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o a yw lefelau staffio nyrsys arbenigol yn ddigonol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?

8 **Buffy Williams** *Rhondda*

OQ63347 **(e)**

Sut mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi staff y GIG i leihau amseroedd aros i gleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg?

9 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

OQ63329 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno neu gefnogi rhaglenni sgrinio antigenau penodol i'r prostad ar gyfer dynion sydd â risg uwch o ganser y prostad?

10 **Hannah Blythyn** *Delyn*

OQ63346 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am barcio am ddim mewn ysbytai ledled gogledd Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

11 OQ63326 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau amseroedd aros yn y GIG?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ63340 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod gofal lliniarol yn cael ei ddarparu i bawb sydd ei angen?